**Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin**

**Cofnodion Cyfarfod**

**Dydd Iau 13 Ionawr 2023**

**Canolfan Tywi, Llandeilo, 6pm**

**Yn Bresennol:** **Yr Aelodau:**

Mark Hadley (MH) – Cadeirydd
y Fforwm Mynediad Lleol
Karen Burch (KB) - Dirprwy
David Stacey (DS)
Wyn Owen (WO)
Richard Leggett (RL)
Mo Rapley (MR)
Sean Brown (SB)
Phil Snaith (PS)
Dave Gravelle (DG)
Peter Griffiths (PG)
Jillie Gardner (JG)

**Ysgrifennydd** **-** Caroline Ferguson (CF) – Rheolwr Mynediad i Gefn Gwlad Cyngor Sir Caerfyrddin

**Ymgynghorwyr / Sylwedyddion / Siaradwyr / Y Cyhoedd**

Neil Thomas (NT) Uwch-reolwr Hamdden Awyr Agored CSC *(Ymuno o bell)*
Y Cynghorydd Edward Thomas (ET) - Cynghorydd Sir ac Aelod Cabinet dros Wasanaethau Trafnidiaeth, Gwastraff a Seilwaith
Moisha Merry (MM) – Cynrychiolydd y Gynghrair Anableddau
Alan Richards (AR) – Clwb Cerdded Pontarddulais

**Ymddiheuriadau:** **Yr Aelodau:**

Tara-Jane Sutcliffe (TS)

**Ymgynghorwyr/Sylwedyddion:**

Stephen Pilliner – Pennaeth Trafnidiaeth a Phriffyrdd CSC
Phil Morgan - Arweinydd Tîm Rheoli Tir CNC

Nodyn:
Mae CSC yn y cofnodion hyn yn cyfeirio at Gyngor Sir Caerfyrddin ac mae HTC yn y cofnodion hyn yn cyfeirio at Hawliau Tramwy Cyhoeddus
Mae CNC yn y cofnodion hyn yn cyfeirio at Cyfoeth Naturiol Cymru

| EITEM | CAMAU GWEITHREDU |
|---|---|
| **Eitem 1 – CROESO AC YMDDIHEURIADAU**<br><br>Croesawodd MH y fforwm.<br><br>MM ac AR – cyflwynodd yr arsylwyr newydd eu hunain.<br><br>Darllenodd CF a MH yr ymddiheuriadau oedd wedi dod i law. Roedd Geoffrey Williams, Paul Barrett, ac Andy Pughsley wedi ymddiswyddo. | |
| **Eitem 2 – YMGYNGHORIAD YNGHYLCH CAU CROESFAN AR YR A48**<br><br>CF – Nid oedd Atkins yn gallu darparu ymateb ysgrifenedig i ymatebion y Fforwm Mynediad Lleol i'r ymgynghoriad hyd nes i Lywodraeth Cymru (LlC) gymeradwyo. Bydd yr ymateb yn cael ei ddosbarthu pan gytunir arno.<br><br>Cyfarfod is-grŵp gydag Atkins yn bosibilrwydd i drafod ymhellach gyda'r fforwm.<br><br>MH – Byddai cyfarfod gydag Atkins i'w groesawu.<br><br>**Eitem 3 – ADRODDIADAU AR FATERION HTC**<br><br>RL – Darparodd wybodaeth allweddol oedd wedi deillio o'i ddadansoddiad o ddata. Roedd y ffigyrau'n codi'n gyffredinol, roedd y materion hŷn yn cynyddu tra bo materion mwy newydd yn sefydlogi.<br><br>Roedd y gwaith dadansoddi yn ystyried effeithiau ffactorau amrywiol megis Covid19, cyflwyno Polisi Codi Tâl, ail-ddyrannu materion mewnol, gweithio ar sail prosiectau, ac oedran y mater.<br><br>CF – Mae angen i adroddiadau newid yn y dyfodol gan y bydd yr arolwg rhwydwaith 100% yn lleihau perthnasedd adroddiadau mater fel y maent ar hyn o bryd. Y bwriad yw darparu math newydd o adroddiad a fydd yn dangos mwy o dueddiadau'r gwasanaeth. Ni ellir datblygu adroddiadau newydd cyn mis Ebrill.<br><br>Mewn cysylltiad â rhoi gwybod am faterion, cafwyd cais gan y fforwm i ddarparu canlyniadau y Polisi Codi Tâl ers iddo gael ei lansio. Rhoddwyd adroddiad ar lafar am y canlyniadau allweddol. Mae'r canlyniadau ar y cyfan wedi bod yn gadarnhaol ers lansio'r Polisi.<br><br>Roedd aelodau'r fforwm yn canmol llwyddiant y polisi. Roedd hon yn stori newyddion dda, a byddai'n dda rhannu/rhoi cyhoeddusrwydd i'r llwyddiant.<br><br>**Eitem 4 – DIWEDDARIAD AM ADOLYGIAD CYNLLUN CYFLAWNI Y CYNLLUN GWELLA HAWLIAU TRAMWY**<br><br>Mae'r adolygiad wedi'i ail-ddyrannu i ymgynghorydd newydd Cynllun Gofodol Cymru oherwydd newidiadau i staff. Diweddariad am yr adolygiad wedi'i ddarparu gan ymgynghorydd newydd, a bydd yn cael ei ddosbarthu i aelodau. | Ysgrifenyddiaeth Fforwm Mynediad Lleol dros dro (ILS)<br><br>ILS<br><br>CF<br><br>ILS |

| | |
|---|---|
| Ar hyn o bryd, bwriad Cynllun Gofodol Cymru yw cyflwyno fersiwn ddrafft o'r adolygiad llawn i'r Fforwm Mynediad Lleol erbyn canol Chwefror, a chwblhau'r ddogfen derfynol cyn diwedd blwyddyn ariannol 2022-23. | |
| **Eitem 5 - DIWEDDARIAD AM Y PROSIECT** | |
| Roedd y tywydd wedi achosi oedi o ran prosiect, oedd i fod i ddechrau yn Rhagfyr-Ionawr. | CF/ILS |
| Cyflwynwyd amserlen ddiwygiedig o ran cyflawni'r prosiect. | |
| Gofynnwyd i'r Fforwm Mynediad Lleol am syniadau am brosiectau i'w hystyried, a byddai'r 10 cynnig gorau ar gyfer prosiectau am 2023-24 yn cael eu cyflwyno i'r fforwm ar gyfer gwneud sylwadau. | |
| **Eitem 6 - CYFARFOD CADEIRYDDION Y FFORWM MYNEDIAD LLEOL** | ILS |
| Roedd RL wedi mynychu Cyfarfod Cadeiryddion y Fforwm Mynediad Lleol ar ran y Cadeirydd. Roedd hwn yn ddigwyddiad defnyddiol a diddorol. Rhoddwyd amlinelliad o'r pynciau allweddol a drafodwyd yn y cyfarfod. Pwyntiau penodol o ddiddordeb i Fforwm Mynediad Lleol CSC – pwysigrwydd memorandwm cyd-ddealltwriaeth ar gyfer y fforwm, gostyngiadau/pryderon am gyllideb HTC ledled Cymru, Adolygiad o Lwybr Arfordir Cymru. | CF |
| Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gwerth chweil i Fforwm Mynediad Lleol Sir Gâr fel bo aelodau a'r Awdurdod yn glir ynghylch pwrpas ac amcanion y fforwm, argymhelliad gan Gadeirydd Cadeiryddion y Fforwm Mynediad Lleol.<br>Roedd aelodau'n sylweddoli bod pwysau eithriadol ar y gyllideb mewn rhannau eraill o Gymru.<br>Byddai Swyddog Cynllun Gofodol Cymru ar gyfer Sir Gâr yn cael gwahoddiad i siarad â'r Fforwm Mynediad Lleol yn y cyfarfod nesaf. | |
| **Eitem 7 – CYNIGION MARCHOGAETH YM MHARCIAU CSC** | |
| Trafodaeth ynghylch trefniadau mynediad marchogol caniataol diwygiedig ym Mharc Coetir y Mynydd Mawr. Mae grŵp Ffrindiau Parc Coetir y Mynydd Mawr wedi bod ynghlwm wrth ddatblygu'r safle. Posibilrwydd o PDF y gellir ei lawrlwytho neu rywbeth tebyg ar gyfer marchogion. | NT |
| Dull tebyg o ddatblygu mynediad marchogol caniataol yn Llyn Llech Owain. Nid oes gan y naill safle na'r llall lwybrau ceffylau arnynt. Rhaid cynllunio'r defnydd yn ofalus er mwyn osgoi gwrthdaro â defnyddwyr eraill a/neu gynefinoedd sensitif. | |
| Gofynnwyd cwestiwn am gyfreithlondeb gyrru car a cheffyl ar Gefn Sidan. NT i gadarnhau'r sefyllfa gyfreithiol - dywedodd y byddai angen cymryd gofal pe bai mynediad yn cael ei roi. | |

**Eitem 8 – YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL A GORCHMYNION GWARCHOD MANNAU CYHOEDDUS YM MEYSYDD PARCIO CSC**

Trafodaeth yng nghyswllt digwyddiadau cysylltiedig â chŵn ymosodol ym Mharc Coetir y Mynydd Mawr. Mae'r digwyddiadau'n cynnwys aflonyddu gan gŵn ar gerddwyr a marchogion. Rhoddwyd gwybod am ddigwyddiadau penodol i KB yn ei hen rôl gyda *Carms Riders.* Awgrymwyd cael Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus penodol ar gyfer Parc Coetir y Mynydd Mawr.

Nid oes staff parhaol ym Mharc Coetir y Mynydd Mawr i orfodi Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus yn effeithiol.

Mae tîm Hamdden Awyr Agored yn ddibynnol ar ddigwyddiadau'n cael eu hadrodd yn y ffordd iawn iddyn nhw a'r Heddlu. Mae troseddau yn ymwneud â Chŵn Peryglus yn fater i'r Heddlu. Mae angen adroddiadau am ddigwyddiadau ar yr heddlu er mwyn creu darlun o broblem i gynllunio'r ffordd orau o weithredu/gorfodi.

**Eitem 9 – CAMAU YN CODI O GOFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**

CF/Pawb

- Cyfarfod rhwng MH, KB a Steve Pilliner (yn dilyn llythyr at y Prif Weithredwr)

ILS

Cyfarfod adeiladol a chadarnhaol ar y cyfan gydag
- eglurhad cytûn o rôl y Fforwm Mynediad Lleol,
- esboniad o faterion ynghylch presenoldeb Swyddog CSC yng nghyfarfodydd y Fforwm Mynediad Lleol
- sicrwydd i lunio cofnodion ac agendâu cyfarfodydd yn gynharach
- ymrwymiad i'r Grŵp Defnyddwyr Cilffyrdd gwrdd ddwywaith y flwyddyn
- ymrwymiad i ymgynghori â'r Fforwm Mynediad Lleol ar Orchmynion Rheoleiddio Traffig o gofio diddordeb penodol aelodau a pherthnasedd hynny i fynediad cyhoeddus. — ILS
- syniadau ar gyfer gwella hyrwyddo'r gwaith a wnaed gan y tîm HTC
- trafodaeth am bwysau ar y gyllideb a sut gallai Fforymau Mynediad Lleol Cymru gynghori LlC am bwysigrwydd darparu mynediad cyhoeddus a'r anghenion mewn perthynas â hynny.

Cofnodion i'w llunio'n gynt, cytunodd yr aelodau byddai cofnodion mwy safonol â llai o fanylion yn ffordd hwylus o sicrhau hyn. Yr aelodau i roi adborth ynghylch y cofnodion ar eu newydd wedd yn y cyfarfod nesaf.

Gwnaed cais hefyd i ddarparu rhywfaint o gyd-destun ynghylch yr eitemau ar yr agenda er mwyn caniatáu i'r mynychwyr ddeall beth sy'n debygol o gael ei drafod.

- Cael arian grant

Angen ymchwilio ymhellach i bosibiliadau grant ar gyfer gwella Mynediad i Gefn Gwlad. Gwahodd siaradwr priodol i gyfarfod y Fforwm Mynediad Lleol.

- Cyfarfod Marchnata HTC

| | |
|---|---|
| Cyfarfod cynhyrchiol a chadarnhaol gyda syniadau da i symud, gwella, hyrwyddo rhwydwaith hyrwyddol CSC.<br><br>Mae amserlen y camau gweithredu ar gyfer aelodau'r grŵp wedi'i dosbarthu ac mae ail gyfarfod wedi ei drefnu ar gyfer mis Ionawr. | |
| • Beicio ar Lwybrau Troed<br><br>Mae cais Rhyddid Gwybodaeth am ragor o fanylion wedi ei gyflwyno i CSC gan Cycling UK. | |
| • Safle Coetir Brownhill<br><br>Bu MH a KB ar ymweliad safle i ddeall cynigion mynediad yn well ar y safle newydd, wedi rhoi adborth i aelodau'r fforwm. Mae cynllunio prosiectau'n parhau. | ILS |
| • Map o Dir Comin<br><br>Roedd ymateb gan Swyddog Tir Comin yn cynghori nad oedd modd darparu copi gwaith digidol o'r map Tir Comin i aelodau'r Fforwm Mynediad Lleol. | ILS |
| Roedd Llywodraeth Cymru yn datblygu cofrestr tir comin electronig ar gyfer Cymru, yr oedd disgwyl iddi fod yn barod erbyn 2023, a byddai ar gael i'r cyhoedd edrych arni ar-lein yn rhad ac am ddim.<br><br>Y gofrestr electronig fydd y cofnod cyfreithiol, bydd y gofrestr bapur yn darfod. | ILS |
| • Taith Archif<br><br>Taith ddydd Mawrth i'w threfnu gan ysgrifennydd y Fforwm Mynediad Lleol ar gyfer aelodau sydd â diddordeb. | |
| • Gorchmynion Rheoleiddo Traffig byw parhaol cyfredol - Cais am restr<br><br>Cais blaenorol gan aelodau'r fforwm am restr o Orchmynion Rheoleiddio Traffig parhaol cyfredol ar y rhwydwaith HTC ac UCR. Cynnydd heb gael ei wneud eto o ran y cais. Bydd angen i ysgrifenyddiaeth y Fforwm Mynediad Lleol ofyn i'r tîm Rheoli Traffig. | |
| • Cyfnod mamolaeth<br><br>Roedd cael rhywun yn lle'r Ysgrifenyddiaeth tra bydd ar Gyfnod Mamolaeth dal yn cael ei drafod, bydd aelodau'r fforwm yn cael gwybod pwy fydd yr ysgrifenyddiaeth dros dro maes o law. | |

| | |
|---|---|
| **Eitem 10 – UNRHYW FUSNES CYMWYS ARALL** | |
| • Ymgynghoriad Llwybr Dyffryn Tywi | |
| Digwyddiad ymgynghori ar 23 Ionawr, trafodwyd presenoldeb gan aelodau'r fforwm. | |
| • Amseroedd Ymateb i Ohebiaeth Staff CSC | |
| Cadarnhaodd MH y dylai staff CSC ymateb i unrhyw ohebiaeth o fewn 10 diwrnod. | |
| • Ymgynghoriad Coedwig Brechfa | |
| Cadarnhaodd MH ei fod wedi ymateb i ymgynghoriad ar ran y Fforwm fel y cytunwyd, yn gofyn am i'r Hawliau Tramwy Cyhoeddus gael eu gwella. | |
| | ILS |
| • Cyfarfodydd 2023 | ILS |
| Dydd Iau 16 Mawrth – Canolfan Hamdden Caerfyrddin<br>Dydd Llun 5 Mehefin – Canolfan Tywi, Llandeilo<br>Dydd Llun 18 Medi – Canolfan Hamdden Caerfyrddin<br>Dydd Llun 11 Rhagfyr – Canolfan Tywi, Llandeilo | |
| • Ymgynghori ynghylch y Gyllideb | |
| Dywedodd KB fod llai o dorri llystyfiant yn arbed arian. | |
| Darparwyd eglurhad, llystyfiant oedd yn ymledu'n unig, CSC yn anelu at orfodi cyfrifoldebau tirfeddiannwyr yn hyn o beth. | |
| • Nodyn Briffio Diwygio Mynediad | |
| Wedi'i roi i Gadeirydd ac Ysgrifenyddiaeth y Fforwm Mynediad Lleol | |
| Roedd angen adolygu'r ddogfen cyn ei chyflwyno i aelodau'r fforwm a'i thrafod. | |
| Cyfarfod Nesaf Dydd Iau 16 Mawrth<br>Canolfan Hamdden Caerfyrddin | |